

# Fferm Wynt Pen y Cymoedd Wind Farm

Cylchlythyr yr haf / Summer newsletter 2023

VATTENFALL

## Croeso

Croeso i gylchlythyr Pen y Cymoedd. Ers i'r prosiect ddechrau cynhyrchu trydan saith mlynedd yn ôl, mae'r fferm wynt wedi helpu i ddod a mwy na £20miliwn i'r ardal, gan gefnogi dros bum cant o brosiectau lleol. Gallwch ddarllen am rai o'r prosiectau a gefnogir yn eich ardal isod.

Gallwch hefyd ddarganfod ffeithiau newydd am y fferm wynt a darllen am yr ymchwil amgylcheddol sy'n cymryd lle ar y safle – gyda drôn arbenigol yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn y DU.

**£20m**
**o gyllid**

**500+**
**o brosiectau lleol**

## Welcome

Welcome to the Pen y Cymoedd newsletter. Since the project was launched seven years ago, the wind farm has helped to bring more than £20million of funding to the area, supporting more than five hundred local projects. You can read about some of the projects supported in your area below.

You can also read some facts that you may not know about the wind farm, and find out about the environmental research happening onsite that will see a specialist drone used in the UK for the first time.

**£20m**
**of funding**

**500+**
**local projects**



# Mewn newyddion eraill...

## Prosiectau ymchwil mawndir yn cychwyn

Mae tîm arbenigol o Brifysgol Abertawe wedi dechrau ymchwil arloesol ar y mawndir ym Mhen y Cymoedd. Mae'r ymchwil o Goedwig i Gors wedi gweld drôn arbenigol yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn y DU i asesu ardaloedd na ellir eu cyrraedd ar droed.

Nod y prosiect tair blynedd yw darparu mewnwelediad newydd ac unigryw ar fawndiroedd i ddeall ymhellach sut y gellir eu defnyddio i atal a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gyda'r wybodaeth hon, gallwn ddatblygu cynlluniau rheoli mwy gwybodus ac effeithiol, atebion gweithredol a pholisïau cenedlaethol ar gyfer mawndiroedd yn y dyfodol.

# In other news...

## Peatland research projects get underway

An expert team from Swansea University has begun pioneering research on the peatlands at Pen y Cymoedd. The Forest to Bog research has seen a specialist drone used for the first time in the UK to assess areas unreachable by foot.

The three-year project aims to provide new and unique insight on peatlands to understand further how they can be used in the prevention and mitigation of the effects of climate change. With this information, we can develop more informed and effective management plans, operational solutions and national policies for peatlands in the future.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

"Yn 2015, fe wnaethom ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer **Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd** i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion a gofynion unigol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Y llynedd, fe wnaethom gyrraedd ein carreg filltir pum mlynedd a oedd yn amser da i fyfyrio, gwerthuso ein cyflawniadau a sefydlu ein camau nesaf. Fel rhan o'r broses hon, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr o gymunedau ar draws y Cymoedd, a helpodd i roi cyfeiriad clir i ni o'r hyn y mae angen i'r gronfa ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod."

## Beth sydd nesaf?

Rydym yn chwilio am gynigion sy'n bodloni'r amcanion a osodwyd gan ein rhanddeiliaid a'n cymunedau yn ystod y broses ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys popeth o dyfu busnesau lleol, creu neu gynnal swyddi, gwella sgiliau, adnoddau lleol, seilwaith, twristiaeth, cysylltedd ac iechyd a lles.

I gael syniad o gwmpas ac ystod y prosiectau rydym eisoes wedi'u cefnogi, edrychwch ar ein ffeithlun trosodd, sganiwch y cod QR isod, neu ewch i **penycymoeddcic.cymru/case-studies/**.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych.
Cysylltwch drwy'r wefan.

Darllen hapus!

**Kate Breeze,** Cyfarwyddwr Gweithredol



"In 2015, we developed a clear vision for the **Pen y Cymoedd Wind Farm Community Fund** to ensure it met the individual needs and requirements of the communities it serves. Last year, we reached our five-year milestone which was a good time to reflect on our achievements and establish next steps. As part of this process, we carried out a consultation with representatives from communities across the Valleys, who helped provide us with a clear direction of what the fund needs to achieve in the coming years."

## What's next?

We are looking for proposals that meet the objectives set out by our stakeholders and communities during the engagement process. This includes everything from growing local businesses, creating or maintaining jobs, improving skills, local resources, infrastructure, tourism, connectivity and health and wellbeing.

For an idea of the scope and range of projects we have already supported take a look at our infographic overleaf, scan the QR code below, or visit **penycymoeddcic.cymru/case-studies/**.

We look forward to hearing from you.
Please get in touch via the website.

Happy reading!


**Kate Breeze,** Executive Director

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

# Pum mlynedd o fuddsoddiad cymunedol / Five years of community investment


**Cefnogi 657 o brosiectau ar draws cymoedd Cymru dros bum mlynedd.**

**657 projects across the Welsh valleys supported over five years.**




**Buddsoddiadau ar gyfer pob sector**


**Investments for each sector**




**Math o arian a ddyfarnwyd**

**Type of funds awarded**

- Cronfa Ficro Cymuned Community Micro Fund
- Cronfa Gweledigaeth Vision Fund
- Cronfa Ficro Busnes Business Micro Fund
- Covid




| Yr amgylchedd a chynaliadwyedd<br>Environment and sustainability | Addysg a sgiliau<br>Education and skills | Twristiaeth<br>Tourism | Chwaraeon, iechyd a lles<br>Sport, health and wellbeing | Celfyddydau, cymuned a diwylliant<br>Arts, community and culture | Swyddi a'r economi<br>Jobs and the economy |
|---|---|---|---|---|---|
| £390K | £455K | £712K | £1.6m | £2.8m | £2.9m |

**Menywod £500K**
Wedi buddsoddi mewn cefnogi entrepreneuriaid benywaidd

**Women £500K**
Invested in supporting female entrepreneurs

**Swyddi 238**
Swyddogaethau wedi'u sicrhau neu eu cynnal

**Jobs 238**
Job roles secured or maintained

**Cynaliadwyedd £392K**
Wedi buddsoddi

**Sustainability £392K**
Invested

Os hoffech ragor o wybodaeth am sut mae'r gronfa'n gweithio a pha arian sydd ar gael, ewch i penycymoeddcic.cymru/home/ neu e-bostiwch enquiries@penycymoeddcic.cymru neu ffoniwch 01685 878785.

If you want more information on how the fund works and what funds are available, please visit penycymoeddcic.cymru/home/ or email enquiries@penycymoeddcic.cymru or call 01685 878785.

# Yr amgylchedd a chynaliadwyedd / Environment and sustainability





**Ailddefnyddio, ailgylchu, ail-greu: Hyb cynaliadwyedd yn annog dewisiadau ffordd o fyw gwyrddach**

Mae Pen y Cymoedd wedi cefnogi adnewyddu ac ailwampio hen lyfrgell yng Nglynrhedynog i fod yn hyb cynaliadwyedd newydd ac yn allfa sero gwastraff i drigolion ledled y Rhondda. Mae **Y Siop Fach Sero** yn darparu lle i bobl ailstocio eu heitemau bwyd bob dydd, rhoi dillad neu offer chwaraeon, trwsio eitemau, defnyddio'r rhyngrwyd a chael coffi, i gyd o dan yr un to.

**Mae nifer y digwyddiadau gweld dyfrgwn ar Afon Cynon** wedi cynyddu yn dilyn buddsoddiad o £50K yn y prosiect **'Afon i Bawb'** gan Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru. Ers i'r prosiect ddechrau, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adrodd bod pum gwaith mwy o ddyfrgwn wedi'u gweld ger yr afon. Efallai eich bod wedi gweld y dyfrgwn ar ITV Cymru yn ddiweddar.

**Reuse, recycle, recreate: Sustainability hub encourages greener lifestyle choices**

Pen y Cymoedd has supported the renovation and refit of a former library in Ferndale into a new sustainability hub and zero waste outlet for residents across Rhondda. **Y Siop Fach Sero** provides a place for people to restock their everyday food items, donate sports clothing or equipment, get items repaired, use the internet and have a coffee, all under one roof.

**Otter sightings have increased in the River Cynon** following a £50K investment through **'A River for All'** project, delivered by the South East Wales River Trust. Since the project began, the Trust has reported five times more sightings of otters by the river. You may have spotted the otters on ITV Wales recently.

# Addysg a sgiliau / Education and skills



Mae Steph o Resolfen yn un o'r nifer o bobl sydd wedi cael eu cefnogi gan raglenni datblygu sgiliau fel y **Fenter Effaith Gymunedol.** Derbyniodd y prosiect, sy'n cyfuno datblygu sgiliau a dysgu gydag adfywio cymunedol, £246k o'r gronfa i roi hwb i'w brosiect, 'Adeiladu Gwydnwch mewn Cymunedau'. Cynigiodd y fenter gyfle i Steph ennill profiad a sgiliau ymarferol, yn ogystal â'r cymwysterau hanfodol yr oedd eu hangen arni i sicrhau swydd yn y diwydiant adeiladu.

Nid yn unig y mae'r prosiect yn adnewyddu ac yn adfywio eiddo adfeiliedig a segur, ac yn eu trawsnewid yn gartrefi newydd, mae'n defnyddio cyflenwyr lleol, tra hefyd yn helpu pobl ddi-waith a heb sgiliau i fynd yn ôl i fyd gwaith.

Steph from Resolven is one of the many people who have been supported by skill development programmes like the **Community Impact Initiative.** The project, which combines skill development and learning with community regeneration received £246k from the fund to kick-start its 'Building Resilience in Communities' project. The initiative offered Steph the chance to gain practical hands-on experience and skills, as well as the vital qualifications she needed to secure a job in the construction industry.

Not only does the project renovate and rejuvenate derelict and disused properties, and transform them into new homes, it uses local suppliers, while also helping unemployed and unskilled people to get back into work.

# Twristiaeth / Tourism



Mae gŵyl **Beicio Mynydd Sisters of Send** wedi creu llwyfan i fenywod fwynhau yng Nghymru, tra hefyd yn amlygu Cwm Afan fel lleoliad gwych ar gyfer y gamp. Mae'r gronfa wedi rhoi cymorth i'r sylfaenwyr, Jessica, Emma ac Ali i'w helpu i adeiladu'r etifeddiaeth ar gyfer digwyddiad blynyddol. Ymhlith y mentrau twristiaeth eraill a gefnogwyd mae llety blychau ceffylau wedi'u haddasu yng Nghwm Cynon ac uwchraddio cyfleusterau ym Mhorthdy Bryn Betws.

The **Sisters of Send Mountain Bike festival** has created a platform for women to enjoy mountain biking in Wales, while also highlighting the Afan Valley as a great venue for the sport. The fund has provided support to founders, Jessica, Emma and Ali to help them build the legacy for an annual event. Other tourism initiatives supported include converting horse box accommodation in the Cynon valley and upgrading facilities at Bryn Bettws Lodge.

# Chwaraeon, iechyd a lles / Sport, health and wellbeing






Rydym wedi helpu i adfywio a bywiogi llawer o leoliadau a chlybiau chwaraeon lleol ar draws y Cymoedd, gan ailsefydlu adnodd cymunedol lleol pwysig, gan alluogi pobl i fod yn egnïol, yn ogystal â chymdeithasu.

Derbyniodd **Pêl-rwyd Rhondda** arian o'r gronfa i alluogi'r hyfforddwyr i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl y pandemig, a chefnogi hyfforddiant a datblygiad. Mae gan yr elusen gofrestredig rôl enfawr i'w chwarae wrth helpu bron i 1000 o ferched a menywod i wella eu lles corfforol, yn ogystal â'u hiechyd emosiynol a'u lles.

Mae **Clwb Golff Glyn-nedd** wedi cael ei adfywio ar ôl derbyn £110K o'r gronfa. Mae hyn wedi galluogi'r clwb i recriwtio dau aelod parhaol o staff, tra hefyd yn adnewyddu ac ailwampio ei gyfleusterau.

We have helped to revive and invigorate many local sporting venues and clubs across the Valleys, re-establishing an important local community resource, allowing people to get active, as well as socialise.

**Rhondda Netball** received money from the fund to enable the coaches to return to work after the pandemic, and support training and development. The registered charity has a huge role to play in helping almost 1000 girls and women improve their physical wellness, as well as their emotional health and wellbeing.

**Glynneath Golf Club** has been revived following the receipt of £110K from the fund. This has enabled the club to recruit two permanent members of staff, while also renovating and refurbishing its facilities.

# Celfyddydau, cymuned a diwylliant / Arts, community and culture



**Ffatri'r Celfyddydau**

Mae meithrin a datblygu canolfannau cymunedol lleol a chynnig lle ar gyfer cymdeithasu mor allweddol. Mae Ffatri'r Celfyddydau yn Ferndale yn enghraifft wych o hyn.

Rhoesom arian iddynt i wneud gwaith hanfodol i'r adeilad ond hefyd i greu swydd am dair blynedd i gefnogi a datblygu eu menter gymdeithasol – Arts Factory Design.

Fe wnaethom hefyd gefnogi lansiad a datblygiad **Gardd Gymunedol Rhondda Fach.** Mae'r ardd yn gwahodd gwirfoddolwyr a phlant ysgol lleol, i helpu i blannu a thyfu ffrwythau a llysiau ar y safle, sydd wedyn yn cael eu gwerthu am gost isel yn ôl i'r gymuned. Yna mae'r incwm yn mynd yn ôl i'r ardd ar gyfer cynnal a chadw, hadau a chynhaliaeth.

**Arts Factory**

Cultivating and nurturing local community centres and offering a place for socialisation is so crucial. The Arts Factory in Ferndale is a prime example of this.

We provided them with funding to carry out essential work to the building but also to create a job for three years to support and develop their social enterprise – Arts Factory Design.

We also supported the launch and development of the **Rhondda Fach Community Garden.** The garden invites volunteers and local school children to help plant and cultivate fruit and vegetables on site, which is then sold at a low cost back into the community. The income then goes back into the garden for maintenance, seeds, and upkeep.

# Swyddi a'r economi / Jobs and the economy






Derbyniodd campfa **IronWorX** 74k o'r gronfa i helpu'r gŵr lleol Morgan, i wireddu ei freuddwyd o agor a rhedeg ei gampfa a'i ganolfan ffitrwydd ei hun. Mae'r ganolfan hefyd wedi creu chwe swydd newydd ar gyfer trigolion lleol gan gynnwys hyfforddwyr, cyfarwyddwyr a rheolwyr.

**Gwneuthurwr seidr ifanc yn ennill clod ledled y diwydiant**

Mae'r gronfa wedi cefnogi llawer o entrepreneuriaid benywaidd i'w helpu i lansio a rhedeg eu busnes eu hunain. Lansiodd Bianca, o Gastell-nedd, **Austringer Cider**, gyda'i thad yn 2021, ar ôl derbyn micro-grant o £5k gan y gronfa. Ers hynny, mae'r brand wedi mynd o nerth i nerth ac mae'r pâr bellach yn cynhyrchu 8000 litr o'u seidr arobryn y flwyddyn.

The **IronWorX** gym received £74k from the fund to help local man Morgan, make his dream of opening and running his own gym and fitness centre a reality. The centre has also created six new jobs for local residents including trainers, instructors, and managers.

**Young cider maker wins industry-wide accolades**

The fund has supported many female entrepreneurs to help them launch and run their own business. Bianca, from Neath launched **Austringer Cider**, with her dad in 2021, after receiving a microgrant of £5k from the fund. Since then, the brand has gone from strength to strength and the pair are now producing 8000 litres of their award-winning cider per year.